Dinas a Sir Abertawe

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Llun, 27 Medi 2021 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd L James (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| J E Burtonshaw | N J Davies | M Jones |
| W G Lewis | B J Rowlands | G J Tanner |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Allison Lowe | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Tracey Meredith | Prif Swyddog Cyfreithiol |
| Huw Evans | Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): M Durke, S M Jones, E T Kirchner, L J Tyler-Lloyd a/ac L V Walton

---

**12 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw gysylltiadau.

**13 Cofnodion.**

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd a gynhaliwyd ar 19 Gorffennaf 2021 fel cofnod cywir.

**14 Canlyniadau Holiadur yr Aelodau ar Bresenoldeb o Bell.**

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad i roi adborth i'r pwyllgor yn dilyn dosbarthu holiadur i aelodau a swyddogion ar bresenoldeb o bell.

Dosbarthwyd yr holiadur i Gynghorwyr, y Tîm Rheoli Corfforaethol a Phenaethiaid Gwasanaeth ar 9 Awst. Derbyniwyd cyfanswm o 42 o ymatebion erbyn y dyddiad cau, sef 30 Awst 2021, ac roedd yn cynnwys ymatebion gan 32 o gynghorwyr a 10 swyddog.

Roedd 92.9% o'r rhai a ymatebodd o'r farn bod y cyfarfodydd o bell presennol yn gweithio'n dda, gyda 42.9% o'r farn eu bod yn gweithio'n dda iawn.

Aeth y Swyddog Monitro ymlaen i amlinellu'r manteision a'r anfanteision a godwyd, a fyddai'n cael eu hystyried wrth ddatblygu'r polisi hybrid/aml-leoliad ar gyfer cynghorwyr a swyddogion.

**Penderfynwyd** nodi ymateb cynghorwyr a swyddogion i'r holiadur a atodwyd yn Atodiad A.

## 15 Rhaglen Sefydlu a Hyfforddi Cynghorwyr 2022.

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd adroddiad i ystyried Rhaglen Sefydlu a Hyfforddi Cynghorwyr ddrafft 2022.

Sefydlodd Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd weithgor ar 19 Gorffennaf 2021 i ystyried Rhaglen Sefydlu a Hyfforddi Cynghorwyr 2022. Cyfarfu'r Gweithgor ar 26 Awst ac atodwyd y nodiadau yn Atodiad A. Tynnodd sylw hefyd at sylwadau ychwanegol ym mharagraff 2.4 o'r adroddiad a dderbyniwyd.

Gofynnwyd i'r pwyllgor ystyried y rhaglen ddrafft, a atodwyd yn Atodiad B ac i nodi unrhyw hyfforddiant pellach a ddylai fod yn rhan o'r rhaglen yn ogystal â nodi pa elfennau o'r rhaglen ddylai fod yn orfodol.

Dylid nodi y byddai eitem 60 yn Atodiad B yn cael ei diwygio i "Trechu Tlodi".

Nid oedd unrhyw eitemau ychwanegol yr oedd y wyllgor am eu cynnwys.

Awgrymodd y pwyllgor y dylid ystyried y pynciau canlynol yn orfodol:

- Lwfansau Cynghorwyr a Phanel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (PACGA), Hunanwasanaeth Cynghorwyr, Hawliadau am Deithio, Lwfansau Cynnal a Llawlyfr Cynghorwyr;
- Cyfathrebu a'r Cyfryngau Cymdeithasol;
- Cydraddoldeb/Amrywiaeth/Y Gymraeg
- Gweithdy Sefydlu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i Gynghorwyr

**Penderfynwyd** y bydd y pwyllgor yn:

1) Cytuno y dylid ystyried bod yr elfennau canlynol o'r rhaglen yn orfodol;
    - Lwfansau Cynghorwyr a Phanel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (PACGA), Hunanwasanaeth Cynghorwyr, Hawliadau am Deithio, Lwfansau Cynnal a Llawlyfr Cynghorwyr;
    - Cyfathrebu a'r Cyfryngau Cymdeithasol;
    - Cydraddoldeb/Amrywiaeth/Y Gymraeg;
    - Gweithdy Sefydlu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i Gynghorwyr.
2) Argymell y dylai'r cyngor fabwysiadu Rhaglen Sefydlu a Hyfforddi Cynghorwyr ddrafft 2022 gyda'r diwygiadau uchod ar 4 Tachwedd 2021.

## 16 Arweiniad statudol interim ar gyfarfodydd aml-leoliad.

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd adroddiad i ystyried y Canllawiau Statudol Dros Dro ar gyfer Cyfarfodydd Aml-Leoliad a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru a oedd ynghlwm yn Atodiad A.

Ar y cyd â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, rhaid i'r awdurdod nodi manylion ei drefniadau ar gyfer Cyfarfodydd Aml-Leoliad. Rhaid i'r trefniadau hyn gael eu harwain gan nifer o egwyddorion cyffredinol. Byddai Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd yn paratoi polisi i'r pwyllgor ei ystyried a hefyd ystyried a fyddai angen gwneud unrhyw ddiwygiadau i Gyfansoddiad y Cyngor.

**Penderfynwyd ar y canlynol:**

1) Nodi'r Canllawiau Statudol Dros Dro ar gyfer Cyfarfodydd Aml-Leoliad;
2) Bydd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd yn paratoi Polisi Cyfarfodydd Aml-Leoliad.

## 17 Adroddiadau Blynyddol y Gwasanaethau Democrataidd, 2019-2020 a 2020-2021.

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd adroddiad "er gwybodaeth" i ddarparu Adroddiadau Blynyddol 2019-2020 a 2020-2021 i Bwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd. Roedd yr adroddiadau'n amlinellu gwaith y pwyllgor yn ystod y cyfnodau hynny.

Diolchodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd i Allison Lowe, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd am ei gwaith yn coladu ac ail-fformatio'r adroddiadau yn ogystal â Chadeiryddion presennol a blaenorol Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd am eu cymorth.

**Penderfynwyd ar y canlynol:**

1) Nodi'r adroddiadau:
2) Caiff yr adroddiadau eu cyflwyno i'r cyngor ar 7 Hydref 2021.

## 18 Cynllun Gwaith 2021-2022.

Cyflwynodd y Cadeirydd y Cynllun Gwaith ar gyfer 2021-2022.

**Penderfynwyd** nodi'r Cynllun Gwaith yn amodol ar ychwanegu'r canlynol:

<u>8 Tachwedd 2021</u>

Ychwanegu:
- Amrywiaeth mewn Democratiaeth;
- Polisi Cyfarfod Hybrid/Aml-Leoliad (yn dibynnu ar gynnydd).

Daeth y cyfarfod I ben am 2.41 pm

**Cadeirydd**